



## Herio'r Penderfyniad yn yr Uchel Lys

### **Herio'r penderfyniad**

Pan fydd Penderfyniad ar Orchymyn yn cael ei gyhoeddi, nid oes gennym rym i'w ddiwygio na'i newid. Felly, mae Penderfyniadau'n derfynol oni bai y cânt eu herio'n llwyddiannus yn yr Uchel Lys. Gallwn ailystyried gorchymyn dim ond os yw her yn llwyddiannus ac mae'r penderfyniad yn cael ei dychwelyd i ni i'w ailbenderfynu.

### **Seiliau ar gyfer herio'r penderfyniad**

Ni ellir herio penderfyniad dim ond oherwydd bod rhywun yn anghytuno â dyfarniad yr Arolygydd. Er mwyn i her lwyddo, byddai'n rhaid i chi ddangos bod yr Arolygydd wedi camddehongli'r gyfraith neu fod rhai meini prawf perthnasol heb gael eu bodloni. Os gwnaed camgymeriad ac mae'r Llys o'r farn y gallai fod wedi effeithio ar y penderfyniad, bydd naill ai'n dileu'r penderfyniad ac yn dychwelyd yr achos i ni i'w ailbenderfynu, neu bydd yn dileu'r gorchymyn yn gyfan gwbl.

### **Gwahanol fathau o orchmynion**

Bydd y Ddeddf y **cadarnhawyd** y Penderfyniad ar Orchymyn oddi tani yn nodi'r amodau ar gyfer herio'r Penderfyniad ar Orchymyn, ac felly mae herio Gorchymyn sydd wedi'i gadarnhau yn hawl statudol. Nid oes hawl statudol i herio pan fydd Gorchymyn '**heb ei gadarnhau**'; yn yr amgylchiadau hyn, gellid gwneud cais am adolygiad barnwrol o'r penderfyniad i beidio â chadarnhau. Amlinellir y ddau senario'n fanylach isod:

### **Heriau i orchmynion wedi'u cadarnhau a wnaed o dan Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981**

Gall unrhyw un wneud cais i'r Uchel Lys o dan baragraff 12 Atodlen 15 Deddf 1981 ar y sail i) nad yw'r gorchymyn o fewn grym adran 53 neu 54; neu ii) na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion yr Atodlen. Os yw'r her yn llwyddiannus, bydd y llys yn dileu'r gorchymyn. Ni ofynnir i'r Arolygiaeth ailbenderfynu'r achos.

**Mae'n rhaid i'r Llys Gweinyddol dderbyn heriau o fewn 42 niwrnod (6 wythnos) o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad o gadarnhau – ni ellir ymestyn y cyfnod hwn.**

### **Heriau i orchmynion wedi'u cadarnhau a wnaed o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Deddf Priffyrdd 1980**

Gall unrhyw un wneud cais i'r Uchel Lys o dan baragraff 287, yn achos gorchymyn a wnaed o dan Ddeddf 1990, neu baragraff 2 Atodlen 2 yn achos gorchymyn a wnaed o dan Ddeddf 1980, ar y sail i) nad yw'r gorchymyn o fewn grymoedd y Ddeddf; neu ii) na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf neu'r rheoliadau a wnaed oddi tani. Os yw'r her yn llwyddiannus, bydd y llys yn dileu'r gorchymyn.

**Mae'n rhaid i'r Llys Gweinyddol dderbyn heriau o fewn 42 niwrnod (6 wythnos) o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad o gadarnhau – ni ellir ymestyn y cyfnod hwn.**

## Heriau i orchmynion sydd heb eu cadarnhau

Os yw gorchymyn a wnaed o dan unrhyw un o'r Deddfau heb ei gadarnhau, yr unig ffordd y gall rhywun sy'n tybio iddo gael cam herio'r penderfyniad yw trwy wneud cais am adolygiad barnwrol gan y Llysoedd (gall y Llys Gweinyddol roi mwy o wybodaeth i chi am sut i wneud hyn – gweler Gwybodaeth Ychwanegol isod). Os yw'r her yn llwyddiannus, bydd y Llys naill ai'n dileu'r gorchymyn, neu'n dileu'r penderfyniad ac yn gofyn i'r Arolygiaeth ailbenderfynu'r achos.

**O ran ceisiadau am adolygiad barnwrol, mae'n rhaid i'r ffurflen Hawlio gael ei chyflwyno i'r Llys Gweinyddol yn brydlon a, sut bynnag, dim hwyrach na 3 mis ar ôl dyddiad y penderfyniad ar Orchymyn, oni bai bod y Llys yn ymestyn y cyfnod hwn.**

**Nodyn Pwysig** – Canllaw yn unig yw'r daflen hon. Oherwydd bod heriau yn yr Uchel Lys yn gallu cynnwys gweithrediadau cyfreithiol cymhleth, gallech ddymuno ceisio cyngor cyfreithiol gan unigolyn cymwysedig, fel cyfreithiwr, os ydych yn bwriadu symud ymlaen neu os ydych yn ansicr ynglŷn ag unrhyw ran o'r arweiniad yn y daflen hon. Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan y Llys Gweinyddol (gweler drosodd).

### Cwestiynau cyffredin

**"Pwy sy'n gallu cyflwyno her?"** – Mewn egwyddor, mae'n rhaid i rywun fod â buddiant digonol (a elwir yn statws weithiau) yn y penderfyniad i allu cyflwyno her. Gall hyn gynnwys gwrthwynebwyr statudol a phartion â buddiant, yn ogystal ag ymgeiswyr ac Awdurdodau sy'n Gwneud Gorchymynion.

**"Faint mae'n debygol o'i gostio i mi?"** – Mae'r Llys yn codi tâl gweinyddol cymharol fach am brosesu eich her (dylai'r Llys Gweinyddol allu rhoi cyngor i chi ar y ffioedd presennol – gweler 'Gwybodaeth ychwanegol'). Fodd bynnag, gall y costau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â pharatoi a chyflwyno'ch achos fod yn sylweddol, ac os bydd yr her yn methu bydd rhaid i chi dalu ein costau ni yn ogystal â'ch costau chi, fel arfer. Ond os bydd yr her yn llwyddiannus, byddwn yn talu eich costau cyfreithiol rhesymol chi, fel arfer.

**"Pa mor hir y bydd yn ei gymryd?"** – Gall hyn amrywio'n fawr. Er bod llawer o heriau'n cael eu penderfynu o fewn chwe mis, gall rhai gymryd mwy o amser.

**"A oes angen i mi gael cyngor cyfreithiol?"** – Nid oes rhaid i chi gael cynrychiolaeth gyfreithiol yn y Llys, ond mae hynny'n beth doeth, oherwydd fe allai fod angen i chi ymdrin â phwyntiau cyfreithiol cymhleth.

**"A fydd her lwyddiannus yn gwyrddroi'r penderfyniad?"** – Nid o reidrwydd. Bydd y Llys naill ai'n dileu'r gorchymyn neu'n dileu'r penderfyniad. Pan fydd penderfyniad yn cael ei ddileu, bydd rhaid i ni ailbenderfynu'r gorchymyn. Fodd bynnag, gallai Arolygydd ddod i'r un penderfyniad eto, ond am resymau gwahanol neu helaethach. Pan fydd gorchymyn yn cael ei ddileu, bydd awdurdodaeth yn trosglwyddo'n ôl i'r Awdurdod a Wnaeth y Gorchymyn. Bydd angen iddo ef benderfynu p'un ai gwneud gorchymyn newydd ai peidio.

**"Beth allaf ei wneud os bydd fy her yn methu?"** – Mae'r penderfyniad yn derfynol. Er y gallai fod yn bosibl mynd â'r achos i'r Llys Apêl, byddai'n rhaid cyflwyno dadl gymhellol i'r Llys er mwyn i'r barnwr roi caniatâd i chi wneud hyn.

### Cysylltu â ni

#### Swyddfa Caerdydd

Yr Arolygiaeth Gynllunio

Ystafell 1-004

Adeiladau'r Goron

Parc Cathays

Caerdydd CF10 3NQ

Rhif ffôn: 0303 444 5940

E-bost: [wales@planninginspectorate.gov.uk](mailto:wales@planninginspectorate.gov.uk)

#### Ombwdsmon Gwasanaethau

#### Cyhoeddus Cymru

1 Ffordd Yr Hen Gae

Pencoed

CF35 5LJ

Rhif ffôn: 0300 790 0203

Gwefan: [www.ombudsman-wales.org.uk](http://www.ombudsman-wales.org.uk)

E-bost: [ask@ombudsman-wales.org.uk](mailto:ask@ombudsman-wales.org.uk)

(Ymholiadau cyffredinol yn unig)

*"Beth fydd yn digwydd os bydd y gorchymyn yn cael ei ddileu?"* – Bydd awdurdodaeth yn trosglwyddo'n ôl i'r Awdurdod a Wnaeth y Gorchymyn. Bydd angen iddo ef benderfynu p'un ai gwneud gorchymyn newydd ai peidio.

### **Archwilio dogfennau gorchymyn**

Fel arfer, rydym yn cadw ffeiliau achos am flwyddyn ar ôl i Benderfyniad ar Orchymyn gael ei gyhoeddi, ac wedyn byddwn yn eu dinistrio. Gallwch archwilio dogfennau gorchymyn yma yn adeilad Llywodraeth Cynulliad Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd, trwy gysylltu â ni ar ein rhif Ymholiadau Cyffredinol i drefnu apwyntiad (gweler 'Cysylltu â ni'). Yna, byddwn yn cael gafael ar y ffeil o'n cyfleuster storio ac yn sicrhau ei bod ar gael i chi ei gweld. Fel arall, pe byddai ymweld yn golygu taith hir neu anodd, fe allai fod yn fwy cyfleus i chi drefnu gweld y dogfennau yn swyddfeydd yr Awdurdod a Wnaeth y Gorchymyn.

### **Gwybodaeth ychwanegol**

Mae mwy o gyngor ynglŷn â chyflwyno her i'r Uchel Lys ar gael gan y Llys Gweinyddol yng Nghanolfan Cyfiawnder Sifil Caerdydd, 2 Stryd y Parc, Caerdydd CF10 1ET, rhif ffôn 029 20376400; Gwefan: <http://www.justice.gov.uk/>



BUDDSODDWR MEWN POBL  
INVESTOR IN PEOPLE

---